Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Selca**

**The Old Gospel Hall**
**Rose Terrace**
**Llanharan**
**Pont-y-clun**
**CF72 9RH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

28/7/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Ddydd Selca

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Selca Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 38 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 Rhagfyr 2021 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Nac ydy |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg.  Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio’r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio’r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws ac, ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried yr amgylchedd, gofal a datblygiad a themâu arweinyddiaeth a rheolaeth yn fanwl.

Mae’r plant yn teimlo’n ddiogel a hapus iawn ym Meithrinfa Ddydd Selca. Maent yn gwybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt ac maent yn mynegi eu hunain yn hyderus. Mae'r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau a chyfleoedd chwarae. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r oedolion a'r plant eraill o'u cwmpas a gallant roi cynnig ar bethau drostynt eu hunain.

Mae'r staff yn gweithio'n bwrpasol i sicrhau bod y plant yn ddiogel, yn iach ac yn hapus. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn llawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant. Mae'r staff gofal yn garedig, yn ofalgar ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Maent yn cydbwyso cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth y plant gyda chymorth lle bo angen ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu â rhieni.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n bwrpasol trwy ddatblygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau clir. Maent yn cefnogi'r staff ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd pwrpasol i drafod eu rolau. Mae'r rhieni yn siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus gan yr ystyrir eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion. Gall y plant ddewis beth i chwarae ag ef ac maent yn gwybod y bydd eu ceisiadau llafar a di-eiriau yn cael eu hystyried. Er enghraifft, roedd plentyn iau yn defnyddio ystumiau di-eiriau yn hyderus gydag aelodau’r staff i'w gwneud yn glir ei fod am fynd i mewn ac allan o'r bownsar.

Mae'r plant wedi ymgartrefu, yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Maent yn archwilio eu hardal chwarae yn hyderus ac yn chwilfrydig am ymwelwyr â'r lleoliad. Ar ôl cyrraedd y lleoliad, caiff y plant eu cefnogi i ymgartrefu, ac mae ganddynt ymdeimlad o berthyn. Maen nhw'n mynd at y staff i gael cysur a mwythau neu'n gofyn iddyn nhw ymuno â'u chwarae. Mae'r plant yn gyfarwydd â threfniadau arferol y lleoliad. Er enghraifft, heb anogaeth, maent yn eistedd wrth y bwrdd i gael byrbryd neu'n aros mewn rhes y tu ôl i'r giât yn barod i fynd allan i chwarae.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a’r oedolion yn gadarnhaol. Mae'r plant yn gofyn cwestiynau, yn gwneud ceisiadau, ac yn mwynhau dangos i'r staff yr hyn y gallant ei wneud. Er enghraifft, dangosodd un plentyn yn falch sut roedd yn gwisgo ei esgidiau ei hun. Mae'r plant yn dechrau gwneud ffrindiau ac yn gyffredinol mae ganddynt ddiddordeb yn y gweithgareddau a gynigir. Maent yn rhannu adnoddau ac yn cymryd eu tro wrth ddefnyddio teganau yn yr awyr agored.

Mae’r plant yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Maent yn ymgysylltu â'r teganau a'r adnoddau sydd ar gael, weithiau'n eu haddasu i weddu i'w diddordebau. Er enghraifft, dechreuodd un plentyn ddefnyddio caeadau'r sosbenni i greu cerddoriaeth. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n achosi teimlad rhesymol o gyflawni rhywbeth a hunan-barch. Maent yn fodlon dangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud. Er enghraifft, roedd un plentyn yn bloeddio wrth iddo droelli o gwmpas mewn top anferth a phlentyn arall yn dangos y gliter roedd yn ei ddefnyddio ar ei faner yn falch.

Mae plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus a chynigir cymorth iddynt os oes angen.

## Gofal a Datblygiad

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae bron pob aelod o staff gofal yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid cadarn. Er enghraifft, dilynir y polisi newid cewynnau yn gyson ac maent yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn byrbryd. Mae'r staff gofal yn ateb yn hyderus beth i'w wneud pe byddai pryder mewn perthynas ag amddiffyn plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff gofal yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Maent yn annog y plant i gymryd eu tro, rhannu adnoddau ac maent yn defnyddio canmoliaeth gadarnhaol. Er enghraifft, mae'r staff yn canmol y plant am ddweud 'diolch' yn y Gymraeg amser byrbryd ac yn atgyfnerthu ymddygiad y maent am ei annog. Fodd bynnag, ni wneir hyn yn gyson bob amser. Mae'r staff gofal yn ymatebol; maent yn gwrando ac yn parchu barn y plant. Yn gyffredinol, mae'r rhyngweithiadau yn gadarnhaol, gan arddangos cynhesrwydd a charedigrwydd.

Mae bron pob un o'r staff gofal yn hyrwyddo datblygiad ac annibyniaeth y plant. Maent yn cynnig cyfleoedd i'r plant gwblhau tasgau'n annibynnol, tra hefyd yn sicrhau eu bod yn gallu cynnig cefnogaeth a chymorth lle bo angen. Mae'r staff gofal yn cofnodi ac yn rhannu gwybodaeth yn gyson â'r rhieni am eu plant trwy ap y lleoliad a thrwy adborth llafar ar ddiwedd y sesiwn.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau clir ar waith, y mae bron pob un o'r staff yn eu dilyn. Fodd bynnag, nid yw'r polisi toiledau yn adlewyrchu eu harfer yn llawn. Maent yn sicrhau bod yr aelodau staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod unrhyw bryderon, eu rôl neu i dynnu sylw at berfformiad gwael. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio aelodau’r staff gofal yn effeithiol i sicrhau bod y plant yn cael eu cefnogi'n dda.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod yr wybodaeth gywir yn cael ei rhannu â'r rhieni ac i fonitro cyfathrebu. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth, bod y staff yn gefnogol iawn a'u bod yn derbyn llawer o wybodaeth trwy ap y lleoliad.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 – Sicrhau bod y strategaethau yn y polisi rheoli ymddygiad yn cael eu gweithredu'n gyson.

A2 – Sicrhau bod arfer y gwasanaeth yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn ei ddogfennau.

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 29/09/2022